Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn

# 2024-2028

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol, neu sy’n cael arian ganddynt
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- trefniadau iaith Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Keen Road
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad a diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**........................................ **1**

Pwy sy'n cael ei warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?................................ 1

Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni trwy'r cynllun hwn?........................................... 2

**Ein hamcanion cydraddoldeb**.................................................................................. **3**

Camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn 2025-2026 i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb ......................................................................... 4

**Monitro a gwerthuso**.................................................................................................. **7**

**Atodiad 1 – Dyletswyddau sy'n cefnogi'r cynllun cydraddoldeb strategol**.............. **8**

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus .................................................... 8

Y Dyletswyddau Penodol ........................................................................................ 8

**Atodiad 2: Ymgysylltu ac Ymgynghori** ..................................................................... **9**

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2024-2028 ............................. 9

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru .................................... 9

Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru Llywodraeth Cymru ...................................... 10

A yw Cymru'n Decach? 2023 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) .. 11

Adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: ..................................................... 11

Adroddiad y Comisiynydd Plant '"Cymerwch y Peth o Ddifri": Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd' ...................................................................... 11

Adroddiad Ysgol Cymru – Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017 gan Stonewall. ............................................................... 12

Ymarfer ymgynghori................................................................................................ 14

## Cyflwyniad a diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru.  Ein cenhadaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, ein harolygiadau a chynyddu capasiti.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gyflawni ein hamcanion strategol, trwy dynnu sylw darparwyr at eu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn ymdrin â sut rydym yn ystyried cydraddoldeb pan fyddwn yn arolygu a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ni a'r rhai rydym yn llunio contract â nhw'n cael cyfle cyfartal a'u trin yn gydradd.

Trwy ein gweithredoedd, credwn y gallwn wneud gwahaniaeth a chreu Cymru fwy cyfartal, yn ogystal â bod yn gyflogwr croesawgar o ddewis i'n staff. Rydym ar daith, ac mae'r cynllun cydraddoldeb strategol hwn yn uchelgeisiol wrth amlinellu ein camau nesaf.

### Pwy sy'n cael ei warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd nodwedd warchodedig yn erbyn y gyfraith. Mae'r gyfraith wedi'i llunio i'w gwarchod nhw. Dyma'r nodweddion gwarchodedig:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Cydnabyddwn fod pobl sy'n rhannu mwy nag un nodwedd warchodedig mewn perygl o anfantais ac anghydraddoldeb lluosog. Rydym wedi ystyried hyn wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu dyletswydd economaidd-gymdeithasol sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried beth allant ei wneud i leihau deilliannau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys gofyniad i hyrwyddo a defnyddio'r **Gymraeg**. Fodd bynnag, mae Mesur y Gymraeg 2011 yn gosod rhwymedigaeth ar gyrff sector cyhoeddus i gydymffurfio â chyfres o 'Safonau' ac i weithio tuag at yr egwyddor y dylai'r Gymraeg gael ei thrin yn gydradd â'r Saesneg yng Nghymru. Mae ein Cynllun Strategol y Gymraeg yn amlinellu ein hamcanion strategol o ran y Gymraeg.

## Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni trwy'r cynllun hwn?

Trwy ein holl waith a'r penderfyniadau a wnawn, byddwn yn cyflawni dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu (esbonnir nodweddion gwarchodedig yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn)
- lleihau deilliannau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Yn benodol, byddwn yn mesur ein llwyddiant trwy'r canlynol:

- mae ein gweithlu, gan gynnwys yr arolygwyr allanol rydym yn gweithio gyda nhw, yn fwy amrywiol
- mae ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu'n fwy, a'u bod yn gallu ffynnu a datblygu
- rydym yn wybodus am faterion cydraddoldeb
- mae ein hadroddiadau'n amlygu mwy o feysydd i'w gwella i helpu i greu Cymru fwy cyfartal a rhannu ymarfer i gefnogi gwelliant
- mae ein gwaith yn cael ei gyfoethogi gan set fwy amrywiol o leisiau rhanddeiliaid

Esbonnir y dyletswyddau sy'n sail i'r cynllun hwn yn atodiad 1.

## Ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym wedi gosod tri amcan cydraddoldeb cyffredinol i'n helpu i gynllunio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni llwyddiant.

| | |
|---|---|
| *Amcan Cydraddoldeb 1* | Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth ein staff, ein harolygwyr allanol a'r lleisiau rhanddeiliaid sy'n cyfoethogi ein gwaith |
| *Amcan Cydraddoldeb 2* | Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i'n holl weithlu, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu, pryd bynnag y bydd yn digwydd |
| *Amcan Cydraddoldeb 3* | Byddwn yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle bydd angen |

Er mwyn ffurfio'r amcanion hyn a'r camau gweithredu a fydd yn eu cefnogi, siaradom â'n staff a rhanddeiliaid allanol trwy arolygon a grwpiau ffocws. Gwnaethom hefyd ystyried yr ystod o dystiolaeth ymchwil a chamau gweithredu ar ein cyfer a fynegwyd yng nghynlluniau gweithredu amrywiol Llywodraeth Cymru. Rhestrir y dystiolaeth a lywiodd y cynllun hwn yn atodiad 2.

Rhoddodd staff a rhanddeiliaid allanol lawer o syniadau defnyddiol a ymgorfforwyd gennym. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd ein hannog uwchlaw popeth i fod yn fwy beiddgar a phenodol yn ein nodau ac i dderbyn nad oedd ein sefyllfa bresennol yn ddigon da a'n bod ni ar daith – er enghraifft, rydym yn symud o fod yn anhiliol i fod yn wrth-hiliol.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn berthnasol ar draws y nodweddion gwarchodedig. Yn yr un modd, mae'r camau gweithredu a ddisgrifiwn yn yr adran nesaf yn berthnasol i bob un ohonynt, heblaw lle y cyfeiriwn yn benodol at nodwedd warchodedig arbennig rydym yn ei thargedu gyda chamau gweithredu.

Rydym wedi gwerthuso ein cynnydd yn erbyn blwyddyn gyntaf ein cynllun a chyhoeddi ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol yma. Gwnaethom gynnydd da ac rydym wedi diweddaru'r cynllun hwn i gyfleu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb yn ystod 2025-2026. Ochr yn ochr â'r camau gweithredu hyn, byddwn yn datblygu set ddata sylfaenol i'n helpu i fesur ein cynnydd.

## Camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn 2025-2026 i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb

*Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth ein staff, ein harolygwyr allanol a'r lleisiau rhanddeiliaid sy'n cyfoethogi ein gwaith*

Byddwn yn:

- adolygu ein prosesau recriwtio staff ar ôl pob ymgyrch i ystyried beth arall y gallwn ei wneud i gynyddu amrywiaeth ein staff, gan gynnwys ystyried sut i gyflawni mwy o amrywiaeth ar baneli cyfweld
- parhau i gyflwyno ein rhaglen arweinyddiaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o'n gwaith gydag arweinwyr addysg dyheadol o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sydd wedi'u tangynrychioli yn ein staff a'n gweithlu arolygwyr allanol
- cydweithio â Dysgu i archwilio sut gallwn weithio mewn partneriaeth i ddarparu llwybrau datblygu ar gyfer darpar arweinwyr addysg o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- gwella'r data a ddaliwn am ein gweithlu arolygwyr allanol er mwyn cael dealltwriaeth well o unrhyw grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli
- gweithio'n weithredol gydag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol i sicrhau bod ein hymgyrch recriwtio arolygwyr lleyg nesaf yn arwain at gronfa fwy amrywiol o arolygwyr lleyg
- adolygu ein deunyddiau a'n prosesau recriwtio ar gyfer arolygwyr allanol i sicrhau eu bod yn cynrychioli amrywiaeth lawn Cymru ac yn cydymffurfio ag arfer orau
- sicrhau bod ein fforwm rhieni a gofalwyr yn cynnwys rhieni â gwahanol nodweddion gwarchodedig
- parhau i ymgysylltu â chyrff eraill, rhanddeiliaid a grwpiau sy'n hyrwyddo nodweddion gwarchodedig penodol yn fewnol ac yn allanol er mwyn ystyried sut gallwn ni, a'r rhai rydym yn eu harolygu, wella polisïau a phrosesau gweithio i ddod yn fwy amrywiol a bodloni anghenion Cymru amrywiol
- sicrhau bod ein hymarfer recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol yn cynnal bwrdd strategaeth sy'n cynnwys aelodau amrywiol
- adolygu ein hyfforddiant sefydlu ar gyfer arolygwyr er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys sesiwn ddiweddaru ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

*Amcan Cydraddoldeb 2: Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i'n holl weithlu, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu, pryd bynnag y bydd yn digwydd.*

Byddwn yn:

- datblygu ein rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad staff i sicrhau bod ein gweithlu'n gweithio'n weithredol i hyrwyddo cyfle cyfartal, mynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu ac, yn arbennig, sicrhau ein bod yn sefydliad gwrth-hiliol a bod gan staff dros dro fynediad llawn at y rhaglenni hyn
- parhau i gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gyfrifoldebau cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth o fwlio ac aflonyddu yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd
- parhau i weithio'n agos gyda staff ag anabledd i sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn gwneud addasiadau rhesymol defnyddiol ar eu cyfer
- datblygu cyfleoedd i reolwyr ymwneud â mentora a hyfforddi o chwith gydag arweinwyr cymunedol
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ystyried amcan sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'u proses rheoli perfformiad
- canolbwyntio ar reolaeth linell gynhwysol yn rhan o'n hadolygiad o drefniadau rheoli perfformiad
- datblygu ein strategaeth les ar gyfer staff
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i bob cydweithiwr yn rhan o'n strategaeth lles
- cyflwyno hyfforddiant ar ymddygiad proffesiynol, dynameg grym ac ymddygiad priodol yn y gweithle i bob AEF ac arolygwyr allanol
- archwilio pa anghenion hyfforddiant sydd gennym fel sefydliad yn gysylltiedig â niwroamrywiaeth
- uwchraddio ein statws Hyderus o ran Anabledd i lefel 3.

*Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle bydd angen*

Byddwn yn:

- cynnwys thema drawstoriadol yn ymwneud ag effaith y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a datblygu blaenraglen adolygiadau sy'n canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb yn ein hadroddiad blynyddol
- dechrau casglu data demograffig yn rhan o unrhyw arolygon a gynhaliwn gyda dysgwyr, staff, rhieni neu randdeiliaid eraill fel y gallwn wella ein sylfaen dystiolaeth genedlaethol o safbwyntiau rhanddeiliaid
- sicrhau, lle y bo'n briodol, bod ein harolygiadau'n ystyried rhwystrau rhag recriwtio i raglenni addysgol, gan gynnwys trwy ddarpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol
- cwblhau ein harweiniad atodol newydd i gefnogi arolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn darparwyr, gan gynnwys mwy o arweiniad ymarferol a chwestiynau i arolygwyr

- adolygu ein harweiniad atodol i gefnogi arolygu Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol
- parhau i gasglu a hyrwyddo enghreifftiau o arfer effeithiol yn gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy’n helpu i godi disgwyliadau a gwella arferion
- gweithio gyda Medr a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod setiau data cenedlaethol gwell ar gael sy’n ein helpu i ddeall profiadau a deilliannau addysgol dysgwyr â gwahanol nodweddion gwarchodedig
- cryfhau gallu ein harolygwyr arweiniol i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ein strwythur arweinyddiaeth ddiwygiedig a sicrhau yr ymgynghorir â swyddogion arweiniol a grwpiau allweddol i lywio penderfyniadau
- datblygu strategaeth wrthdlodi i gyflawni ein rôl wrth helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyflawni
- cryfhau sut rydym yn cymhwyso asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb i’n hadolygiadau thematig ac unrhyw newidiadau a wneir yn rhan o’n hadolygiad canol cylch o drefniadau arolygu
- cynnal adolygiad thematig o wrth-hiliaeth mewn ysgolion ac UCDau
- ystyried sut gallwn ystyried yn fwy penodol rwystrau rhag recriwtio a’r gallu i fanteisio ar raglenni prentisiaeth neu ymuno â nhw wrth i ni ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer 2027
- ystyried sut gallwn hyrwyddo gwaith yn gysylltiedig â’r cynllun gweithredu LHDTC+ trwy ein gwaith.

## Monitro a gwerthuso

I gefnogi'r cynllun hwn, byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob blwyddyn sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a fydd yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â'r canlynol:

- y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i symud ymlaen â phob un o'n hamcanion cydraddoldeb strategol
- graddfeydd amser ar gyfer pryd y disgwyliwn gyflawni'r camau gweithredu hyn
- y bobl sy'n gyfrifol am ddatblygu'r camau gweithredu, a
- sut byddwn yn mesur ein llwyddiant wrth gyflawni'r camau gweithredu a amlinellwyd.

Byddwn yn cyhoeddi ein cynnydd yn erbyn pob un o amcanion ein cynllun cydraddoldeb strategol yn flynyddol, gan eu haddasu a'u diwygio, lle y bo'n berthnasol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl dimau neu sectorau ar draws y sefydliad yn amlygu un cam gweithredu y byddant yn ei gyflawni i gefnogi ein hamcanion cydraddoldeb.

Yn ogystal, byddwn yn monitro ystod o ddata perthnasol i helpu i wirio ein bod yn gwneud cynnydd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth reoli allweddol ganlynol i olrhain cynnydd:

- data am y gweithlu
- yr Arolwg Pobl
- cwynion a chanmoliaeth
- olrhain ein hadroddiadau arolygu a thematig, cipluniau ac astudiaethau achos

# Atodiad 1 – Dyletswyddau sy'n cefnogi'r cynllun cydraddoldeb strategol

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

### Y Ddyletswydd Gyffredinol

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i:

1 ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf

2 hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu

3 meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

### Y Dyletswyddau Penodol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi'r grym i wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well; adwaenir y rhain fel Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus ac maen nhw'n wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau a gyflwynodd y Dyletswyddau Penodol i Gymru ym mis Mawrth 2011. Mae'r rhain yn amlinellu'r camau gweithredu y mae'n rhaid i Estyn eu cymryd i gydymffurfio, ac maen nhw'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Gosod Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Sicrhau ei bod yn ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn sut mae penderfyniadau Estyn yn effeithio arnynt
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau
- Cyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth yn flynyddol
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol ymhlith ei chyflogeion a defnyddio ei gweithdrefnau asesu perfformiad i amlygu a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant ei chyflogeion yn gysylltiedig â'r Dyletswyddau Cyffredinol
- Gosod amcan cyflog cyfartal rhwng y rhywiau lle yr amlygir gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau
- Ystyried cynnwys amodau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ei phrosesau caffael

## Atodiad 2: Ymgysylltu ac Ymgynghori

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gasglu'r wybodaeth a oedd yn angenrheidiol i gynhyrchu'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2024-2028

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 1 –** Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 2 –** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 3 –** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 4 –** Byddwn yn cymryd camau i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, difrïo, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pob person, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 5 –** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb gymryd rhan yn y gweithle, cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y caiff ein gwasanaethau cyhoeddus eu harwain.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 6 –** Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i ddod o hyd i swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle.

**Amcan cydraddoldeb cenedlaethol 7 –** Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg ac i ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

### Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru

**Argymhellion sy'n cynnwys Estyn:**

- Adolygu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu dull gwrth-hiliol o recriwtio a hyfforddi athrawon.

- Cydweithio a chyd-lunio â grwpiau rhanddeiliaid ethnig lleiafrifol i ddatblygu camau nesaf y Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon.
- Cryfhau canllawiau gwrthfwlio 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' Llywodraeth Cymru i ysgolion.

**Ôl-16**

- Integreiddio'r gwaith o adrodd ar ethnigrwydd â'r gyfres o ddatganiadau ystadegol ar ddysgu ôl-16 a deilliannau dysgwyr.
- Nodi bylchau mewn cydraddoldeb o ran cyfranogiad a chyrhaeddiad dysgwyr, a phennu targedau a chamau gweithredu priodol i'w gwella.

## Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru Llywodraeth Cymru

**Ni chrybwyllir Estyn yn benodol yn unrhyw un o'r argymhellion. Fodd bynnag, mae'r argymhellion canlynol yn arbennig o berthnasol i Estyn:**

**Addysg Gynhwysol:**

26 Rhoi canllawiau cenedlaethol ar faterion traws i ysgolion ac awdurdodau lleol

27 Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig, a thrawsffobig

28 Llunio dull gweithredu ysgol gyfan sy'n gwbl LHDTC+-gynhwysol a'i roi ar waith

29 Sicrhau bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+-gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff

**Cymunedau, Bywyd Preifat a Bywyd Teuluol:**

31 Cefnogi'r sector gwaith ieuenctid LHDTC+

**Gweithleoedd Cynhwysol:**

43 Rhoi hyfforddiant ar gydraddoldebau sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus

## A yw Cymru'n Decach? 2023 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

**Dyma'r argymhellion sy'n crybwyll Estyn:**

7 Dylai cyrff rheoleiddio gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru ddefnyddio'r Ddyletswydd i ysgogi gwelliannau o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy eu gwaith arolygu.

8 Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion ac Estyn gymryd camau i leihau'r bylchau cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant anabl, gan gynnwys rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o 0–16 oed.

28 Dylai Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Estyn ac ysgolion fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth rhywedd gan gynnwys cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau.

32 Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir weithredu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai Estyn fonitro'r cynnydd a wneir gan ysgolion i fynd i'r afael â'r mater hwn.

42 Dylai Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), Estyn ac ysgolion leihau'r risg i ddisgyblion a myfyrwyr o brofi gwahaniaethu neu fwlio mewn addysg yn deillio o'u cyfeiriadedd rhywiol, gan gynnwys cofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau.

## Adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd:

**Argymhellion sy'n crybwyll Estyn:**

**Argymhelliad 42**: Llywodraeth Cymru i gomisiynu Estyn o fewn tair blynedd o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru i gynnal adolygiad rhagarweiniol â'r nod o ystyried sut mae ysgolion yn dechrau datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu thema drawstoriadol amrywiaeth a pha fath o gymorth ychwanegol y gallai fod arnynt ei angen. Mae'r Gweithgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad thematig llawn o fewn pum mlynedd.

**Argymhelliad 43**: Estyn i adolygu ac adrodd ar sut mae ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, a hyrwyddo rhannu arferion da drwy astudiaethau achos ac adroddiadau thematig.

## Adroddiad y Comisiynydd Plant "Cymerwch y Peth o Ddifri": Profiadau Plant o Hiliaeth mewn Ysgolion Uwchradd

Dyma'r argymhellion sy'n crybwyll Estyn:

- Dylai ysgolion, Awdurdodau Lleol ac Estyn sicrhau bod ganddyn nhw bolisi clir ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau hiliol, a bod hynny'n rhan o bob Cynllun Gwella Ysgol. Dylai hynny gael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth yng nghymuned yr ysgol, neu gan ddefnyddio rhanddeiliaid ar draws Cymru yn achos cymunedau llai amrywiol.

- Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Estyn ddiwygio'u Fframwaith Arolygu Cyffredin er mwyn sicrhau ffocws mwy pendant ar sut mae ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau hiliol, yn eu cofnodi ac yn ymdrin â nhw, gan sicrhau bod llais a barn disgyblion ar hyn yn cael eu clywed trwy eu harolygiadau.

- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad arfer dda i ganfod arfer dda sydd eisoes yn bodoli wrth ymateb i hiliaeth a digwyddiadau hiliol ymhlith ysgolion.

### Adroddiad Ysgol Cymru – Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017 gan Stonewall.

**Argymhellion ar gyfer Estyn.**

Dylai Estyn:

- Ddarparu hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i'r holl arolygwyr ynghylch sut i asesu ymdrechion ysgol i gefnogi disgyblion LHDT, a pha mor effeithiol maen nhw o ran mynd i'r afael ag iaith a bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd
- Arolygu addysg rhyw a pherthnasoedd pob ysgol fel rhan o'u hadolygiad ar gyfer alinio â'r cwricwlwm newydd
- Parhau i sicrhau bod effeithiolrwydd ysgol yn mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chreu amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl bobl ifanc yn rhan o'r fframwaith arolygu a bod hyn yn cael ei gyfleu'n eglur i'r holl ysgolion
- Sicrhau bod darparu addysg rhyw a chydberthynas cynhwysol o ansawdd uchel yn rhan allweddol o'r gwaith o asesu agwedd datblygu personol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Gwneud hyn yn eglur mewn arweiniad arolygu a thrwy hyfforddiant arolygwyr
- Bod yn fwy pendant wrth herio perfformiad gwael, yn ogystal â thynnu sylw at arferion da. Nodi beth yn union fyddai'n ddull annigonol o fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a chefnogi pobl ifanc LHDT
- Wrth arolygu'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon, sicrhau bod yr hyfforddiant yn paratoi athrawon newydd i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ac i gefnogi disgyblion LHDT.

**Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth: Deall Hiliaeth a Gwrth-hiliaeth mewn Sefydliadau Addysg yng Nghymru**

Argymhellion ar gyfer Estyn:

**Argymhelliad 8: Dylai mudiadau gwrth-hiliaeth ac Estyn rannu astudiaethau achos o strategaethau effeithiol i sicrhau bod teuluoedd a chymunedau ynghlwm ag ymdrechion gwrth-hiliaeth**

## Ymarfer ymgynghori

Rydym wedi cynnal ymarfer ymgynghori helaeth i helpu i ddatblygu ein hamcanion strategol. Yn ogystal â’n rhanddeiliaid arferol, sef ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16, cynhwyswyd y grwpiau canlynol yn ein hymarfer ymgynghori:

- BAWSO
- EYST Cymru
- Cynghrair Hil Cymru
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- SSCE Cymru
- Parentkind
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Anabledd Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Awtistiaeth Cymru
- Plant yng Nghymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Arweinwyr awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau addysg Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Stonewall Cymru
- Race Council Cymru
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Cydraddoldeb Hiliol Cymru
- Umbrella Cymru – sefydliad cymorth LHDTC+
- Transaid Cymru – cymorth cydfuddiannol sy’n helpu pobl draws, anneuaidd a rhyngryw ledled Cymru

Rydym hefyd wedi ymgynghori’n fewnol â’n staff ac wedi cynnal grwpiau ffocws gyda staff i drafod y materion hyn.